

Jeremy Miles AS/MS

Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

20 Ionawr 2021

Annwyl Mick,

Rwy'n ddiolchgar am ystyriaeth eich Pwyllgor o Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021 ac am eich adroddiad. Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu fy mod i nawr wedi gosod y Gorchymyn drafft ac y bydd yn destun dadl ar 2 Chwefror.

Fel ymateb i'r argymhellion yn eich adroddiad:

Argymhelliad 1. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol egluro ei sylwadau ynghylch yr angen am Orchymyn pellach yn y Cyfrin Gyngor o ganlyniad i'r cyfnod pontio.

Derbyniwyd. Mae Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch cyflwyno Gorchymyn pellach yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i wneud darpariaeth gyfatebol ar gyfer swyddogaethau cydredol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas y Dyfodol) 2020 â'r hyn a wnaed ar gyfer deddfwriaeth arall mewn perthynas ag ymadael â'r UE yn y Gorchymyn yr adroddwyd arno gennyh.

Argymhelliad 2. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygiadau yn ymwneud â swyddogaethau cydredol a chydredol plws sydd wedi codi neu sy'n codi yn y dyfodol o ganlyniad i ddeddfwriaeth y DU.

Derbyniwyd. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Yn gywir

Jeremy Miles AS/MS

Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.